## PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 27 Mawrth 2002 am 10.00 a.m. yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Dref, Rhuthun.

## PRESENNOL

Y Cynghorwyr J. Butterfield, M.Ll. Davies, P. Dobb (dirprwy ar ran D. Holder), P. Douglas, S. Drew, A.E. Fletcher-Williams, I.M. German, M.A. German, K.N. Hawkins, N.J. Hughes, R.W. Hughes, N. Hugh-Jones, F.D. Jones, G. Jones, P.M. Jones, R.E. Jones, R.J.R. Jones, W. Roberts (dirprwy ar ran D.W. Davies), F. Shaw, W.G. Thomas, A.J. Tobin, K. Wells, C.H. Williams, P.O. Williams, a R.Ll. Williams.

## HEFYD YN BRESENNOL

Y Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio, y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Prif Swyddog Cynllunio (Gogledd y Sir), Prif Swyddog Cynllunio (De'r Sir), Prif Swyddog Cynllunio a Gorfodaeth, Swyddog Gweinyddol (G. Butler)

## DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB ODDI WRTH

Y Cynghorwyr G.A. Clague, D.W. Davies, D.M. Holder, J.A. Smith, K.P. Stevens a S. Th omas.

**1506. EITEMAU BRYS**

Dim.

Gan ystyried nifer y cyhoedd a oedd yn bresennol, penderfynwyd trafod cais 45/2001/1148/PF (Fraith Villa, Y Y Rhyl) yn gyntaf, a phenderfynwyd gwrthod caniatâd cynllunio yn groes i argymhellion y swyddogion.

**1507. CEISIADAU AM GANIATÂD I DDATBLYGU**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn rhifo'r cynlluniau a gyflwynwyd yr oedd yn ofynnol i'r Pwyllgor benderfynu arnynt.

***PENDERFYNWYD**:-*

*(a) cadarnhau argymhellion y Swyddogion yn unol â'r adroddiad a gyflwynwyd, a dosbarthu caniatâd cynllunio neu wrthod y cais fel bo'n briodol o dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995, Deddf Cynllunio a Iawndal 1991, Rheoliadau Hysbysebion Cynllunio Gwlad a Thref 1994 a/neu Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, ar gyfer datblygiadau arfaethedig yn unol â'r cynlluniau a ganlyn, yn amodol ar yr amodau wedi eu rhifo yn y rhestr a gyflwynir yn awr:-*

(i) Caniatâd

| Rhif y cais | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 03/2002/0037/Cynllunio Llawn | (Yn dilyn ystyried dau lythyr sylwadau ychwanegol oddi wrth Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig a H Davies ar ran Gr^w p Gwarchod Dyffryn Llangollen).<br>Dymchwel adeilad allanol presennol ac adeiladu adeilad allanol newydd ym Mhen y Bryn, Ffordd Caergybi, Llangollen.<br>YN AMODOL ar amodau diwygiedig rhif 2 & 3 ac amod newydd rhif 4, a Nodyn newydd i'r Ymgeisydd<br>2. Ni chaniateir dechrau unrhyw waith ar yr adeilad arfaethedig nes cael cymeradwyaeth ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ynghylch y math o gerrig a mortar i'w defnyddio, ac nid fydd gweddill y |

waliau yn waith brics wedi'i baentio'n wyn, ond wedi'u cwblhau gyda'r math o orffeniad a lliw a gymeradwyir yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol cyn dechrau ar y gwaith.

3. Y defnyddir yr adeilad arfaethedig at ddibenion amaethyddol yn unig.

4. Ni ddechreuir defnyddio'r adeilad arfaethedig nes bo'r adeilad amaethyddol y mae'n dod yn ei le sydd yn union i'r gogledd orllewin i annedd Pen y Bryn wedi ei ddymchwel yn llwyr.

RHESWM - Caniatawyd yr adeilad arfaethedig yn unig er mwyn caniatâu gwagle storio amaethyddol amgen a chyfyngedig mewn lleoliad mwy addas.

Nodyn i'r Ymgeisydd - Fe'ch cynghorir nad yw'r defnydd o waith brics wedi'i baentio'n wyn yn y lleoliad agored hwn yn cael ei ystyried yn dderbyniol gan yr Awdurdod Cynllunio lleol.

Roedd y Cynghorydd N Hughes yn dymuno cael cofnod ei fod wedi atal ei bleidlais.

(Caniatawyd y cynnig ar sail pleidlais benderfynu'r Cadeirydd)

**09/2001/1264/Cynllunio Llawn**

Adeiladu estyniad llawn cyntaf dros garej, troi garej yn ystafelloedd byw ychwanegol ac adeiladu ystafell haul ym Mryn Chwiller, Y Waen, Bodfari, Dinbych

YN AMODOL ar amod diwygiedig rhif 2, i ddiwygio amod 2, a Nodyn newydd i'r Ymgeisydd

2. Bod y wal ar ochr ddwyreiniol y mynediad arfaethedig yn cael ei iselhau a'i gadw ar uchder heb fod yn uwch na 1.05m uwchben y ffordd gerllaw am bellter o 3.0m gyhyd ag y bo'r mynediad yn cael ei ddefnyddio.

RHESWM AM AMOD 2 - I sicrhau y darperir gweledelld digonol ar y pwynt ymuno â'r ffordd fawr.

Nodyn i'r Ymgeisydd - Tynnir eich sylw at y dogfennau amgaeedig a ganlyn:

(i) Nodiadau Atodol Priffyrdd, rhifau 1,3,4,5 a 10

(ii) Deddf Gweithiau Stryd a Ffyrdd Newydd 1991 - Ffurflen Rhan N.

**14/2002/0091/Amlinellol**

(Yn dilyn ystyried dau lythyr sylwadau ychwanegol oddi wrth Gyngor Cymuned Cyffylliog a Phennaeth Gwarchod y Cyhoedd).

Datblygu 0.2 hectar o dir at ddibenion preswyl (cais amlinellol) ar Dir Rhan 2 oddi ar Maes Y Delyn, Cyffyliog, Rhuthun.

YN AMODOL at amod diwygiedig rhif 9 a Nodyn newydd i'r Ymgeisydd.

9. Bydd unrhyw adeiladau i'w hadeiladu ar y plot(iau) sy'n ffinio â'r ffordd fawr ar ben deheuol y safle yn rhai unllawr, onibai y bo'r awdurdod cynllunio lleol yn cytuno fel arall.

Nodyn i'r Ymgeisydd - O ran Amod 9 y caniatâd hwn, gofynnir i chi baratoi a thrafod syniadau braslun o'r math o annedd arfaethedig gyda Swyddog yr Achos cyn cyflwyno cynlluniau manwl, o gofio amlygrwydd y safle wrth edrych arni o'r briffordd gyhoeddus ar hyd y ffin ddeheuol.

Roedd y Cynghorydd P. Douglas yn dymuno cael cofnod ei fod wedi atal ei bleidlais gan nad oedd yn bresennol pan ddechreuwyd trafod y cais.

**16/2002/0058/Amlinellol**

(Yn dilyn ystyried ymateb Cyngor Cymuned Llanbedr Dyffryn Clwyd (a ddyfynwyd yn anghywir yn yr adroddiad).

Datblygu 0.1 hectar o dir drwy adeiladu annedd unllawr unigol (cais amlinellol) ar dir y tu ôl i 12 Tan y Bryn, Llanbedr Dyffryn Clwyd, Rhuthun.

| | |
|---|---|
| | YN AMODOL ar amod diwygiedig rhif 7 ac amod newydd rhif 12.<br>7. Bydd yr annedd a ganiateir drwy hyn yn un unllawr heb unrhyw ystafelloedd preswyl yng ngwagle'r to.<br>12. Ni chaiff unrhyw un o'r coed ar safle'r cais eu tocio, eu cwtogi neu eu torri i lawr heb ganiatâd ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol.<br>RHESWM - Er budd amwynder gweledol. |
| 18/2002/0066/Cynllunio Llawn | (Yn dilyn ystyried un llythyr sylwadau ychwanegol oddi wrth y Pennaeth Priffyrdd.)<br>Manylion diwygiedig i'r math o d^y a ganiatawyd yn flaenorol o dan God Rhif 18/2000/764/PF (Plot 14) ym Maes Tyrnog, Llandyrnog, Dinbych<br>YN AMODOL ar Nodyn newydd i'r Ymgeisydd<br>Nodyn i'r Ymgeisydd - Fe'ch cynghorir bod hawl mynediad 6m o led ar gyfer draeniau d^wr bur a d^wr arwyneb wrth ymyl y safle, ac na ellir cyflawni unrhyw waith ar y rhan yma heb ganiatâd yr awdurdod draenio perthnasol o flaen llaw. |
| 24/2002/0879/Cynllunio Llawn | Adeiladu estyniad llawr cyntaf ar du ôl annedd presennol yn 1 Penrhiw, Rhewl, Rhuthun |
| 31/2001/0963/Cynllunio Llawn | Newid ac addasu adeiladau allanol i ffurfio 2 annedd a gosod tanc carthffosiaeth newydd ar gyfer yr adeiladau allanol ym Mhen Y Bryn, Wigfair, Llanelwy. |
| 43/2001/1243/Cynllunio Llawn | (Yn dilyn ystyried diwygiad i'r adroddiad - 3 coeden i'w colli ar y perimedr)<br>Dymchwyl cyn gartref plant ac adeiladu canolfan feddygol newydd gyda lleoedd parcio ar y safle ac addasiadau i'r mynediad presennol i geir yn 2 Bryneithin Avenue a 26 Ffordd Llys Nant, Prestatyn. |
| 43/2002/0028/ Cymeradwyo materion a neilltuwyd | Manylion 93 annedd a'r dull mynediad a gyflwynwyd yn unol ag Amod Rhif 1 y caniatâd cynllunio amlinellol, Cyfeirif 43/2000/0250/PO o ran Plotiau 1-93, Ystad Gerddi'r T^wr, Ffordd Fictoria, Prestatyn<br>YN AMODOL ar Nodyn newydd i'r Ymgeisydd<br>Nodyn i'r Ymgeisydd - Tynnir eich sylw at y telerau yng nghaniatâd cynllunio amlinellol cyfeirif 43/2000/250/PO yn cynnwys yr amodau cynllunio perthnasol a'r goblygiad Adran 106.<br>(Mae'r caniatâd hwn yn amodol ar beidio â derbyn unrhyw sylwadau eraill yn codi materion cynllunio na chawsant eu cynnwys yn yr adroddiad hwn erbyn 5 Ebrill 2002)<br>Roedd y Cynghorydd N H Jones yn dymuno cael cofnod ei fod wedi pleidleisio i wrthod y caniatâd cynllunio a mynegodd y Cynghorydd P O Williams bryderon ynghylch yswiriant llifogydd i breswylwyr ar y safle. |
| 43/2002/0069/Adran 73A (Parhad/Cadw) | (Yn dilyn ystyried dau lythyr sylwadau ychwanegol oddi wrth R. Williams, T^y Melinydd, Bishopswood Road (a llythyr arall at y Cadeirydd), yr Ymgeisydd a'r Asiant.<br>Cadw wal ffiniol a ffens ac ardal patio o flaen annedd (cais ôl-weithredol) yn Fox Hall, Bishopswood Road, Prestatyn.<br>Roedd y Cynghorydd S Drew yn dymuno cael cofnod ei bod wedi pleidleisio i wrthod y caniatâd cynllunio. |
| 43/2002/0087/Amlinellol | (Yn dilyn ystyried cywiriad i'r adroddiad (Paragraff 3) ynghylch mynediad oddi ar Meadow Lan) a 2 lythyr sylwadau oddi wrth T & N |

| | |
|---|---|
| | Gabriel, Nandina, Meadows Lane a G & M D Michelson, The Meadows, Meadow s Lane, Prestatyn.<br>Datblygu 0.16 hectar o dir drwy adeilad annedd unigol a garej a ffurfio mynediad newydd i gerbydau (cais amlinellol) ar dir yn Claremont, Meadows Lane, Prestatyn.<br>YN AMODOL ar Nodyn newydd i'r Ymgeisydd<br>Nodyn i'r Ymgeisydd - Tynnir eich sylw at y Nodiadau Atodol Priffyrdd Rhifau 1, 2, 4, 5 a 10 sy'n amgaeedig.<br>Mae'r Awdurdod Priffyrdd yn cynghori y bydd angen llunio Cytundeb Adran 278 o dan y Ddeddf Priffyrdd cyn dechrau ar y datblygiad.<br>Roedd y Cynghorwyr S Drew, I M German, M A German a N H Jones yn dymuno cael cofnodi eu bod wedi pleidleisio i wrthod caniatâd cynllunio. |
| 44/2002/0039/Cynllunio Llawn | Datganodd y Cynghorydd Ken Wells fudd yn y cais a ganlyn ac ni wnaeth bleidleisio.<br>(Yn dilyn ystyried un llythyr sylwadau ychwanegol oddi wrth Gyngor Tref y Rhyl).<br>Newid defnydd o ddiwydiannol (Dosbarth B1) i gyfleuster addysg a hyfforddiant (Dosbarth D1) yn Unedau 5 & 6 Parc Cyflogaeth Cefndy, Ffordd Cefndy, Y Rhyl.<br>YN AMODOL ar amod newydd rhif 3.<br>3. Bydd y defnydd a ganiateir drwy hyn ar gyfer hyfforddi gosodwyr offer nwy a swyddi cysylltiedig yn unig a dim defnydd arall yn Nosbarth D1 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987 onibai bod yr Awdurdod Cynlluno Lleol yn cytuno fel arall yn ysgrifenedig.<br>RHESWM - I sicrhau bod y defnydd o fath diwydiannol sy'n briodol ar gyfer yr adeilad a'r safle. |
| 45/2002/0200/Cynllunio Llawn | (Yn dilyn ystyried 11 llythyr sylwadau ychwanegol oddi wrth Glwb Iotiau y Rhyl, Ymddiriedolaeth Cadwraeth Clwyd ac Elwy Conservation Trust; Cyngor Tref Rhuddlan; Cyngor Tref y Rhyl; Asiantaeth yr Amgylchedd; Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Ecolegydd y Sir, yr Uned Gwarchod yr Arfodir; British Gas; Cyngor Bwdeistref Sirol Conwy; Pennaeth Gwarchod y Cyhoedd).<br>Gosod 3 cebl trydan a chyfleuster rhyng-gysylltu i wasanaethu Fferm Wynt ar y môr yng Ngogledd Hoyle yn Nhraeth y Rhyl - Harbwr y Foryd - Ochr Ddwyreinion Aber yr Afon Clwyd - Morfa Cwybr, Y Rhyl.<br>YN AMODOL ar amodau diwygiedig rhifau 3,6, 7,10 a 16 a Nodyn newydd i'r Ymgeisydd<br>3. Ni chaiff unrhyw waith ei gyflawni o fewn 5 metr i longddrylliad 'The City of Ottawa'.<br>6. Y cyflwynir cynllun i reoli s^wn a dirgrynu a gynhyrchir gan y gwaith ynghlwm â chreu'r cyfleuster rhyng-gysylltu, yn cynnwys tyllu, codi tomenni a phwmpio yn ystod y gwaith adeiladu, i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a sicrhau caniatâd ysgrifenedig ar ei gyfer cyn dechrau ar unrhyw waith ar y cyfleuster rhyng-gysylltu. Bydd y gwaith adeiladu yn cydymffurfio'n llwyr â'r cynllun a gymeradwywyd.<br>7. Y cyflwynir cynllun i reoli s^wn a gynhyrchwyr gan y gwaith o dyllu ffosydd a gosod y ceblau rhwng y cyfleuster rhyng-gysylltu a' is-orsaf yn Ffordd Cefndy, yn cynnwys rheoli'r oriau gwaith mewn amgylchiadau yr ystyrir eu bod yn sensitif oherwydd lleoliad eiddo preswyl, i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a sicrhau caniatâd ysgrifnedig cyn dechrau ar y gwaith. Rhaid cydymffurfio â'r cynllun priodol drwy gydol y cyfnod cyflawni'r gwaith.<br>10. Nodi 'bydd' yn lle 'dylai'. |

16. Os yw'r ceblau yn dod i'r golwg ar unrhyw adeg, bod cynigion yn bodoli i ail-gladdu'r ceblau yn unol â'r manylion ac y dylid cyflwyno a sicrhau cymeradwyaeth ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol ymhen mis i'r cebl ddod i'r golwg.

RHESWM - Er budd amwynder a diogelwch.

Nodiadau i'r Ymgeisydd:

1. Dylech gydgysylltu â D^wr Cymru/Welsh Water (01286 832283) o ran lleoliad allfa argyfwng i ffos gyfun i'r gogledd o Sydenham Avenue gan y bydd hwn yn agos at y cyfleuster rhyng-gysylltu arfaethedig.

2. Mae llwybr cyhoeddus (Rhif 30) yn croesi safle'r cais ac mae'n debygol y bydd gwaith tyllu i osod y ceblau yn achosi tarfu/torri'r llwybr dros dro. Felly gall fod yn angenrheidiol cyflwyno cais am gau'r llwybr o dan Ddeddf Rheoli Traffig y Ffyrdd 1984. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Jonathan Evans ar 01824 706965 (Adain Gwaith Stryd yr Adran Priffyrdd a Chludiant).

3. Mae Transco (British Gas) wedi tynnu ein sylw at fodolaeth pibellau nwy yn ardal safle'r cais (amgaeir map).

4. Mae Pennaeth Gwarchod y Cyhoedd y Cyngor wedi cynghori y gallai gwaith ar y tir effeithio ar draethau d^wr nofio yn Y Rhyl. Y tymor d^wr nofio yw 1 Mai hyd at 30 Medi bob blwyddyn. Bydd angen cydgysylltu â'r cyngor hwn ac Asiantaeth yr Amgylchedd ynghylch amseriad y gwaith ar draws y traeth yn unol ag amod rhif 9.

**46/2001/1080/Cynllunio Llawn**

(Yn dilyn ystyried un llythyr ychwanegol a dderbyniwyd - cadarnhad mai'r ymgeisydd yw perchennog y bont dros yr Afon Elwy).

Newid defnydd tir i ffurfio maes carafanau teithiol ar gyfer 10 carafan a storfa ar gyfer 16 ac addasiadau i'r mynediad presennol i gerbydau (yn rhannol ôl-weithredol) yn Spring Gardens, The Roe, Llanelwy.

YN AMODOL ar amodau diwygiedig rhif 1,3 a 5

1. Cyn pen 3 mis i ddyddiad y caniatâd hwn, y bydd y bylchau yn ffens canol yr A525, a'r gwelliannau i'r mynediad i'r A525 a'r dreif wedi eu cwblhau ac ar gael i'w defnyddio yn unol â'r manylion llawn yn cynnwys cynllun gosod manwl, dyluniad, arwyddion, marciau ar y ffordd ac adeiladu'r mynediad (gan ystyried y ffordd feicio newydd) a gyflwynir ac a gymeradwyir yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

3. Ychwanegu "(h.y. nad yw pobl yn preswylio ynddynt)"

5. Ychwanegu "a bod y gweithiau sy'n ofynnol gan Amod Rhif 1 wedi'u cwblhau ac ar gael i'w defnyddio."

**46/2002/0005/Cynllunio Llawn**

Datganodd y Cynghorydd Ken Wells fudd yn y cais a ganlyn ac ni wnaeth bleidleisio.

Adeiladu garej dwbl y tu ôl i'r annedd yn The Stables, Lôn Cwttir, Llanelwy.

Roedd y Cynghorwyr M Ll Davies, N H Jones a R.Ll. Williams yn dymuno cael cofnod eu bod wedi pleidleisio i wrthod caniatâd cynllunio.

**47/2002/0109/Cynllunio Llawn**

(Yn dilyn ystyried un llythyr sylwadau ychwanegol oddi wrth Gyngor Cymuned Dyserth.)

Adeiladu estyniad deulawr â tho pig ar ochr annedd a tho pig cysylltiedig yn 14 Bod Hamer, Cwm, Dyserth, Y Rhyl

YN AMODOL ar amodau newydd rhifau 3, 4, 5 a 6

3. Serch darpariaethau Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (neu unrhyw orchymyn yn diddymu neu'n ail-rymuso'r gorchymyn gyda neu heb newidiadau), ni

cheir gosod ffenestri ychwanegol at y rhai a ddangosir yn y cynlluniau cymeradwy ar unrhyw adeg.

4. Ni chaiff unrhyw ddatblygu ddigwydd nes y cyflwynir cynllun manwl o ran y tirlunio caledd a meddal ar y safle i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i awdurdodi ganddo, a bod y cynllun yn cynnwys manylion am:

(a) yr holl goed, gwrychoedd a llystyfiant arall ar y saflen, a manylion unrhyw rai i'w cadw, a'r mesurau i'r hamddiffyn yn ystod y gwaith datblygu

(b) y coed, gwrychoedd, llwyni neu lystyfiant arfaethedig, yn cynnwys cadarnhad am y rhywogaeth, niferoedd a lleoliad ac amseriad arfaethedig eu plannu

(c) y deunyddiau arfaethedig i'w defnyddio ar y dreif, y llwybrau a'r ardaloedd arwyneb caled eraill

(d) y gwaith tir arfaethedig, yn cynnwys graddio a phentyru'r pridd ac unrhyw newidiadau yn lefelau'r tir, y llilinau terfynol a pherthynas y twmpathau arfaethedig i'r tirffurf a'r llystyfiant amgylchynol

(e) Lleoliad, dyluniad, deunyddiau a'r mathau o ddulliau ffinio'r eiddo.

5. Bod yr holl blannu, hadu, gosod glaswellt, ffensio, walio neu unrhyw driniaeth arall a gynhwysir yn y manylion tirlunio a gymeradwyir yn cael eu cyflawni yn y tymor plannu neu'r tymor hadu cyntaf yn dilyn cwblhau'r datblygiad a bod unrhyw goed neu blanhigion sy'n marw, yn cael eu tynnu ymaith neu'n cael eu difrodi neu yn dioddef afiechyd o fewn cyfnod o bum mlynedd i'r datblygiad yn cael eu hadnewyddu yn y tymor plannu nesaf gyda rhai eraill o rywogaeth a maint tebyg.

6. Rhaid cyflwyno manylion am adleoli'r tanc nwy i'r awdurdod cynllunio lleol a'u cymeradwyo ganddo cyn dechrau ar y gwaith datblygu. Caiff y tanc nwy ei adleoli yn unol â'r manylion cymeradwy yn unig a'i gadw yn y lleoliad a gymeradwywyd wedi hynny.

(ii) Caniatâd Adeilad Rhestredig (yn amodol ar eu cyfeirio at CADW):-

| Rhif y Cais | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 03/2001/0979/Caniatâd Adeilad Rhestredig | Dymchwel arfaethedig yr ystafell haul/ystafell ymolchi llawr gwaelod ac adeiladu dau estyniad ochr deulawr i'r annedd presennol yn yr annedd presennol yn Yr Hen Ficerdy, Lôn Bryn Howell, Trefor, Llangollen. |

(iii) Gwrthod

| Rhif y Cais | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 02/2001/1135/Cynllunio Llawn | Newid defnydd siop nad yw'n cael ei defnyddio mwyach i ffurfio llety preswyl ychwanegol a chadw ffens yn ardal y ffin ochr (cais rhannol ôl-weithredol) yn 89 Bro Deg, Rhuthun |
| 23/2002/0019/Cynllunio Llawn | (Yn dilyn ystyried un llythyr sylwadau ychwanegol oddi wrth Gyngor Cymuned Llanrhaeadr Y C).<br>Diwygiadau i addasiadau ac estyniadau a gymeradwywyd yn flaenorol o dan ganiatâd cynllunio cod rhif 23/1999/772/PF ac estyniad i'r cwrtil domestig (cais rhannol ôl-weithredol) ym Mryn Eglur, Llanrhaeadr, Dinbych. |
| 27/2001/0740/Amlinellol | (Yn dilyn ystyried un llythyr sylwadau ychwanegol oddi wrth Karen Sinclair AC). |

| | |
|---|---|
| | Adeiladu annedd a gosod tanc carthffosiaeth newydd (cais amlinellol) yn Amgueddfa Geir Llangollen, Gweithfeydd Pentrefelin, Pentrefelin, Llangollen<br>RHESWM -<br>1. Barn yr awdurdod cynllunio lleo yw bod y cynnig yn groes i Bolisi B8 yng Nghynllun Strwythur Cyngor Sir Clwyd: Newid Cyntaf; Polisi 11 Cynllun Lleol Dosbarth Glynd^wr a Pholisi HSG 6 Cynllun Datblygu Unedol Sir Ddinbych sy'n esblygu, gan yr ystyrir nad oes angen hanfodol am annedd yn y lleoliad hwn y tu allan i ffin tref Llangollen, gan y gellir cyflwyno mesurau diogelwch yn rhesymol drwy osod systemau ar y safle ac mae posibilrwydd o newid rhan o adeiladau presennol ar y safle ar gyfer llety preswyl.<br>2. Ystyrir bod adeiladu annedd yn y lleoliad hwn yn annerbyniol gan y byddai'n cynrychioli datblygiad gwasgaredig yn agos at Afon Dyfrdwy, mewn Ardal Tirlun Arbennig yng Nghynllun Strwythur Cyngor Sir Clwyd: Newid Cyntaf (yn groes i Bolisi H5), ac Ardal Tirlun Eithriadol yng Nghynllun Lleol Dosbarth Glynd^wr (yn groes i Bolisi L1) ac mewn Ardal o Harddwch Eithriadol yng Nghynllun Datblygu Unedol Sir Ddinbych (yn groes i Bolisïau GEN 4 ac ENW 2).<br>(Roedd y Cynghorydd M. Ll. Davies yn dymuno cael cofnod ei fod wedi pleidleisio o blaid rhoi caniatâd cynllunio.) |
| 43/2002/0167/<br>Caniatâd Hysbyseb | (Yn dilyn ystyried un llythyr sylwadau ychwanegol oddi wrth Gyngor Tref Prestatyn).<br>Cadw arwydd fascia wedi'u oleuo'n fewnol (cais ôl-weithredol) yn Townsends, 112 Stryd Fawr, Prestatyn.<br>Yn dilyn cynnig i wrthod caniatâd hysbyseb ac wedi i'r nifer ofynnol o Aelodau ofyn am bleidlais wedi'i chofnodi, gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelodau i bleidleisio o blaid neu yn erbyn argymhelliad y swyddog i wrthod caniatâd hysbyseb i gadw arwydd fascia wedi'i oleuo'n fewnol.<br><u>O blaid y cynnig</u> i wrthod caniatâd hysbyseb - Y Cynghorwyr J. Butterfield, M.Ll. Davies, P.A. Dobb, P. Douglas, A.E. Fletcher-Williams, I.M. German, N.J. Hughes, F.D. Jones, G. Jones, P.M. Jones, R.E. Jones, R.J.R. Jones, F. Shaw, W.G. Thomas, K.E. Wells, C.H. Williams, P.O. Williams a R.Ll. Williams (Cyfanswm 18)<br><u>Yn erbyn y cynnig</u> i wrthod caniatâd hysbyseb - Y Cynghorwyr S. Drew, M.A. German, N. Hugh-Jones, A.J. Tobin a W. Roberts (Cyfanswm5) |
| 45/2002/0071/Cynllunio Llawn | (Yn dilyn ystyried dau lythyr sylwadau ychwanegol oddi wrth Gyngor Tref y Rhyl a Phennaeth Gwarchod y Cyhoedd).<br>(Diwygiwyd) Parhau defnyddio safle ar gyfer gwerthu a gosod teiars a batris ar sail manwerthu a chyfanwerthu ar (dir wrth ymyl 117) 119 Ffordd y Morfa, Y Rhyl |

(b) *Serch argymhelliad y Swyddogion, y dylid gwrthod y ceisiadau a ganlyn am y rhesymau a nodir:-*

| <u>Rhif y Cais</u> | <u>Disgrifiad a Lleoliad</u> |
|---|---|
| 45/2001/1148/Cynllunio | (Yn dilyn diwygio'r adroddiad i nodi presenoldeb y Cynghorydd S Drew ar yr ymweliad â'r safle ac ystyried dau lythyr sylwadau ychwanegol oddi wrth Ann Jones AC a G W Jones, 12 Russell Court, Y Rhyl (a dderbyniwyd gan y Cadeirydd)).<br>Datganodd y Cynghorydd N. Fletcher Williams ei budd yn y math yma o weithgaredd busnes ac ni wnaeth bleidleisio ar y cynnig. |

(Disgrifiad diwygiedig) Adeiladu 3 byngalo a 23 fflat hen bobl mewn adeiladau tri llawr a deulawr yn Fraith Villa, 2a Boughton Avenue, Y Rhyl
Gwnaed y penderfyniad, a oedd yn GROES i argymhelliad y Swyddogion, am y rheswm a ganlyn:-
Byddai'r cynnig yn arwain at orddatblygu'r safle, drwy nifer a lleoliad yr adeiladau a'r gwaith priffyrdd cysylltiedig, a maint a dyluniad yr adeiladau. O ganlyniad ni fyddai'r datblygiad yn cyd-fynd yn dda â'r datblygiadau presennol ar y safle ac yn yr ardal amgylchynol a byddai'n arwain at golli nifer o goed aeddfed ar y safle a fyddai'n andwyol i amwynder gweledol a phreswyl ac yn groes i feini prawf (i) (ii) (iv) Polisi GEN7 a Pholisi ENV7 Cynllun Datblygu Unedol Sir Ddinbych (Fersiwn Addasiadau Arfaethedig).
Roedd y Cynghorydd M.Ll. Davies yn dymuno cael cofnod ei fod wedi atal ei bleidlais.

(c) *gohirio'r ceisiadau a ganlyn er mwyn galluogi cynnal ymweliad â'r safle am y rhesymau a nodir:-*

| <u>Rhif y Cais</u> | <u>Disgrifiad a Lleoliad</u> |
|---|---|
| 22/2002/0032/Cynllunio Llawn | Adeiladu estyniad llawn cyntaf ar ben estyniad unllawr presennol ym Mro Clwyd, Gellifor, Rhuthun. (i asesu'r effaith ar yr eiddo drws nesaf). |
| 43/2002/0111/Adran 73A (Parhad/Cadw) | (Yn dilyn ystyried pedwar llythyr sylwadau ychwanegol oddi wrth Gyngor Tref Prestatyn, Pwyllgor yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, Prif Swyddog Cefn Gwlad, Mrs C A Hampson, Nant yr Ogof, Tan yr Allt).<br>Cadw ac ail-raddoli deunydd wedi ei bentyru mewn tomenni (cais ôl-weithredol) ar dir wrth ymyl Quarry Cottage, Tan Yr Allt, Prestatyn |
| 47/2001/1163/Cynllunio Llawn | (Yn dilyn ystyried un llythyr sylwadau ychwanegol oddi wrth Bennaeth Gwarchod y Cyhoedd).<br>Newid defnydd tir ac adeiladau i ddepo contractiwr peirianneg, gorsaf ailgylchu a swyddfeydd atodol cysylltiedig ar dir yn ac wrth ymyl Golfa/Trefaldwyn, Ffordd Treffynnon, Llanelwy. |

Ar y pwynt yma, gan ei bod yn 1 p.m., cynigiodd aelod y dylid gohirio'r cyfarfod er mwyn caniatáu amser cinio cyn ymrwymiadau'r prynhawn. Wedi ei roi i bleidlais, penderfynwyd parhau â'r Pwyllgor Cynllunio nes gorffen ymdrin â'r materion dan sylw.

**1508. <u>FFERM WYNT AR Y MÔR - GOGLEDD HOYLE</u>**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio yn rhoi manylion am yr elfen ar y môr y fferm wynt arfaethedig yng Ngogledd Hoyle.

Esboniodd y Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio nad yw'n ofynnol i'r cynllun ar y môr gael caniatâd cynllunio ond bod yr awdurdod yn cael cyfle i gyflwyno sylwadau am y cynllun.

Mae'r isadeiledd ar Draeth y Rhyl yn amodol ar gais cynllunio a gyflwynwyd gerbron y Pwyllgor hwn (cyfeir if 45/2002/200/PF)

***PENDERFYNWYD** nad oes gan Gyngor Sir Ddinbych unrhyw wrthwynebiad i'r fferm wynt ar y môr ac y dylai'r llythyr i'r Adran Diwydiant a Masnach gynnwys y farn a gyflwynwyd yn ddiweddar gan Bennaeth Gwarchod y Cyhoedd.*

**1509. MATERION GORFODAETH**

(i) ENF/2002/0005 Bryn Eglur, Llanrhaeadr, Dinbych

Addasiadau i annedd.

***PENDERFYNWYD*** *awdurdodi'r hyn a ganlyn:-*

*(a) cyflwyno rhybudd gorfodaeth i sicrhau rhoi'r gorau i'r gwaith ar estyniad i'r annedd a chael gwared o'r gwaith, ynghyd â chael gwared ar yr holl waith adeiladu a strwythurau diawdurdod eraill ar y safle yn cynnwys y wal ffiniol o flaen yr annedd, a*

*(b) dechrau camau erlyniad neu gamau gweithredu eraill priodol o dan y Deddfau Cynllunio yn erbyn unrhyw berson neu bersonau y cyflwynwyd unrhyw Rybudd Gorfodaeth neu Rybudd arall arno neu arnynt, neu y cymrir camau gweithredu cyfreithiol yn eu herbyn pe na baent yn cydymffurfio â gofynion yr uchod.*

(ii) ENF/2001/0004 89 Bro Deg, Rhuthun

Newid defnydd siop a chodi ffens.

***PENDERFYNWYD*** *awdurdodi'r hyn a ganlyn:-*

*(a) cyflwyno Rhybudd Gorfodaeth i sicrhau cael gwared ar y ffens ffiniol diawdurdod a nodi unrhyw amodau ynghylch newid defnydd siop i ddefnydd preswyl mewn perthynas a'r annedd yn 89 Bro Deg, Rhuthun, a*

*(b) dechrau camau erlyniad neu gamau gweithredu eraill priodol o dan y Deddfau Cynllunio yn erbyn unrhyw berson neu bersonau y cyflwynwyd unrhyw Rybudd Gorfodaeth neu Rybudd arall arno neu arnynt, neu y cymrir camau gweithredu cyfreithiol yn eu herbyn pe na baent yn cydymffurfio â gofynion yr uchod.*

(iii) C43/2001/221 Tir wrth ymyl Tan Yr Allt, Prestatyn

Deunydd wedi ei bentyrru mewn tomenni yn ddiawdurdod

***PENDERFYNWYD*** *gohirio ystyried y mater hwn er mwyn galluogi cynnal ymweliad â'r safle.*

(iv) ENF/441/99/N Townsends, 112 Stryd Fawr, Prestatyn

Arddangos arwydd fascia wedi'i oleuo'n fewnol yn ddiawdurdod.

***PENDERFYNWYD*** *awdurdodi'r hyn a ganlyn:-*

*(a) cyflwyno Rhybudd Gorfodaeth i sicrhau tynnu'r arwydd wedi'i oleuo diawdurdod i lawr, a*

*(b) dechrau camau erlyniad neu gamau gweithredu eraill priodol o dan y Deddfau Cynllunio yn erbyn unrhyw berson neu bersonau y cyflwynwyd unrhyw Rybudd Gorfodaeth neu Rybudd arall arno neu arnynt, neu y cymrir camau gweithredu cyfreithiol yn eu herbyn pe na baent yn cydymffurfio â gofynion yr uchod..*

(Roedd y Cynghorydd N.H. Jones yn dymuno cael cofnod ei fod wedi pleidleisio yn erbyn cymryd camau gweithredu gorfodaeth).

(v) C45/2002/0011 (Tir wrth ymyl 117) 119 Ffordd y Morfa, Y Rhyl

Newid defnydd o storio/diwydiant ysgafn.

***PENDERFYNWYD** awdurdodi'r hyn a ganlyn:-*

*(a) cyflwyno Rhybudd Gorfodaeth i sicrhau rhoi'r gorau i'r defnydd diawdurdod;*

*(b) dechrau camau erlyniad neu gamau gweithredu eraill priodol o dan y Deddfau Cynllunio yn erbyn unrhyw berson neu bersonau y cyflwynwyd unrhyw Rybudd Gorfodaeth neu Rybudd arall arno neu arnynt, neu y cymrir camau gweithredu cyfreithiol yn eu herbyn pe na baent yn cydymffurfio â gofynion yr uchod, a*

*(c) chynorthwyo'r preswyliwr i ganfod lleoliad arall ar gyfer y busnes.*

**1510. ADRODDIAD AR FATERION GORFODAETH BLAENOROL**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio yn rhoi manylion am yr holl faterion Gorfodaeth blaenorol y maent yn parhau i ymdrin â hwy gyda manylion am y cynnydd hyd yma. Cyfeiriodd y Prif Swyddog Cynllunio a Gorfodaeth at eitem 25 - Mast Telecom Mast yn Ffordd Pendyffryn, Prestatyn - a chynghorodd eu bod wedi derbyn barn gyfreithiol yn awr ac y byddai adroddiad am hynny'n cael ei gyflwyno i'r Aelodau maes o law.

***PENDERFYNWYD** derbyn yr adroddiad.*

**1511. ENWI A RHIFO DATBLYGIADAU NEWYDD**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio yn rhoi manylion am ddatblygiadau newydd a gafodd eu henwi'n ddiweddar:-

(i) Tir wrth ymyl y White Horse, Llandyrnog wedi'i enwi'n Hamdden Clwyd, Llandyrnog

(ii) Tir yng Nghanolfan Henllan, oddi ar y B5428, Henllan, wedi'i enwi'n Godre'r Garn, Henllan

***PENDERFYNWYD** derbyn yr adroddiad, er gwybodaeth.*

**1512. DYDDIAD YR YMWELIAD Â'R SAFLE**

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio ei adroddiad ysgrifeneidg (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer ymweliadau safle yn deillio o Eitem Agenda 2 i'w cynnal ar 5 Ebrill 2002 a chynghori am aelodaeth gyfredol y Panel Ymweliad Safle.

***PENDERFYNWYD** cynnal yr ymweliadau safle cymeradwy ar 5 Ebrill 2002.*

**1513. RHESTR DDIRPRWYEDIG**

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio ei adroddiad ysgrifenedig ynghylch y ceisiadau cynllunio a benderfynwyd ganddo o dan bwerau dirprwyedig rhwng 9 Chwefror 2002 a 8 Mawrth 2002.

***PENDERFYNWYD** derbyn yr adroddiad.*

Daeth y cyfarfod i ben am 1.30 p.m.

**********